Lleolir InTec ym Mharc Menai, Bangor gyda mynediad uniongyrchol i brifffordd yr A55 ar gyfer mynediad uniongyrchol i ranbarth Gogledd Cymru. Rhennir yr eiddo deulawr 2000m2 yn ddwy adain sydd yn ymestyn o dderbynfa a rennir a safle arddangos ar y llawr isaf gyda chyfleusterau cynhadledd a ffreutur ar y llawr cyntaf. Mae’r lle ar gael yn amrywio o swyddfeydd wedi carpedu 20m2 a 40m2 ar y llawr cyntaf a swyddfeydd wedi carpedu a labordai 70m2 -100m2 ar y llawr isaf, cyfanswm o 25 unedau.

**Nodweddion cynllun yr adeilad**

- Cyfleusterau cynhadledd
- Ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol
- Gwasanaeth Derbynfa rhannol yn ôl anghenion tenantiaid
- Gwasanaeth llungopïo a sganio
- Ceblau CAT5E strwythuredig drwy’r adeilad
- Cysylltiadau 100Mb “Fibrespeed” llinell unigryw i’r we
- System ffôn canolog digidol gydag estyniadau DDI
- Diogelwch cyflawn i bob uned gyda mynediad 24/7 trwy dechnoleg ffob electroneg
- Gwyliadwriaeth TCCD ar gyfer diogelwch ychwanegol
- Tirlunio amgylcheddol
- Parcio ymwelwyr a tenantiaid
- Cyfleusterau sbwriel ac ailgylchu
- Mesurydd trydan ar gyfer bob uned
- Adeilad allanol ar gyfer storio cemegau
- Anfonebu misol parthed defnydd systemau diogelwch, ynni, ffôn, cysylltiad i’r we

**Pecyn cefnogi tenantiaid**

- Defnydd gostyngol o gyfleusterau cynhadledd
- Cyngor busnes a marchnata ar gael yn lleol
- Telerau a chytundebau hyblyg

| Unedau Intec sydd ar gael | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Uned** | **Troedfedd sgwâr** | **Medr sgwâr** | **Rhent blynyddol + TAW** | **Gwasanaethau blynyddol + TAW** |
| F5 | 355 Tr Sg | 32Mt Sg | £3,728.00 | £3,705.00 |
| F8 | 456 Tr Sg | 42 Mt Sg | £4,788.00 | £3,705.00 |

**Ymholiad**

Cysylltwch gyda stadau@gwynedd.llyw.cymru i drefnu apwyntiad i ymweld ar safle

**Canllawiau ymgeisio**

Dylai'r ymgeisydd lenwi ffurflen gais, a chyflwyno'r cyfrifon archwiliedig diweddaraf. Bydd pob cais yn cael ei asesu'n unigol yn unol â'r ffurflen. Gellir cysylltu gyda gwasanaeth Busnes Cymru (Rhif ffôn - 03000 603 000) i dderbyn cymorth gyda darparu cynllun busnes. Mae'n wasanaeth gwybodaeth gyfrinachol a hollol ddiduedd rhad ac am ddim i fusnesau yng Nghymru.

Gallwch gyflwyno cynllun busnes, nid yw yn angenrheidiol. Allwch anfon eich cais drwy ebost i stadau@gwynedd.llyw.cymru neu drwy post i Stadau, Adran Tai & Eiddo, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH.